'MAE'R GYMRAEG YN PERTHYN I NI I GYD'

PERTHYN

GWARCHOD Y GYMRAEG A'I HELPU I FFYNNU

Seimon Jones (Cymdeithas Pen-y-graig, Cyfeillion Llŷn)
Sian Parri (Cymdeithas Pen-y-graig, Cyfeillion Llŷn)
Lois Ann Parri BSc MSc
Margiad Roberts BA
Dr Dewi Wyn Evans BA PhD

---

# Arolwg Tai ac Iaith Llangwnnadl 2024


Dyma ran gyntaf o bapur ymchwil a gyhoeddir mewn dwy ran ar Arolwg Tai ac Iaith Llangwnnadl 2024. Comisiynwyd yr arolwg fel rhan o brosiect Perthyn, Llywodraeth Cymru yn Llŷn gyda'r nod o helpu'r Gymraeg i ffynnu, yn y cymunedau Cymraeg lle mae niferoedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau.

Rhan 1) Mae'r Arolwg Tai ac Iaith yn ddata sylfaenol ar dai ac iaith sydd wedi ei gasglu, gan, ac ar gyfer cymuned leol Llangwnnadl, Llŷn. Mae'n cynnwys y cyflwyniad, y fethodoleg, y canlyniadau ynghyd a thrafodaeth a chanliad gychwynnol. Mae'r taenlenni data crai (dienw) ar gael ar gais.

Crynodeb.................................................................. t 2
Cyflwyniad............................................................... t 3
Methodoleg............................................................. t 7
Canlyniadau............................................................ t 8
Trafodaeth................................................................. t10
Casgliad…................................................................. t15

Rhan 2) Archwiliad o ffactorau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol addysgol sy'n dylanwadu ac yn cyfrannu at fywiogrwydd y Gymraeg, gan roi adroddiad yr Arolwg Tai ac Iaith yn ei gyd-destun ehangach, ac adnabod cyfleoedd ar gyfer adfer defnydd y Gymraeg. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar wahân ynghyd â'i atodiadau.

# Arolwg Tai ac Iaith – Ymchwil ar gyfer Prosiect *Perthyn*




## **<u>Crynodeb</u>**

Y cyfnod archwilio ydi rhan gyntaf y prosiect Perthyn a gafodd ei arwain gan y gymuned gyda arbenigedd gwybodaeth leol. Cafodd ei gomisiynu gan Gymdeithas Penygraig er mwyn adeiladu sylfaen ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol. Nod archwiliad Perthyn yw cael dealltwriaeth integredig o'r gymuned gyfan, ei phobl, ei hiaith, yr economi a'i systemau, i nodi a choladu'r elfennau cydgysylltiedig sy'n cyfrannu at hunaniaeth, lles a dyfodol cyffredinol y gymuned. Mae'r cyfnod archwilio hwn yn casglu data sylfaenol o'r gymuned i arwain ymchwiliad pellach.

Casglwyd data gan ddefnyddio fframwaith cyfannol (Wholescape), gan integreiddio ffynonellau eilaidd a sylfaenol. Mae data eilaidd yn cynnwys data ONS, y Cyfrifiad a'r Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Casglwyd data sylfaenol drwy'r Arolwg Tai ac Iaith gan ddefnyddio mapio hyperleol. Cynhaliwyd yr arolwg hwn ym mis Ionawr 2024 mewn ardal o tua 10.2km2 wedi'i ganoli o amgylch Llangwnnadl, yn sir Gwynedd, ac mae'n nodi defnydd ieithyddol aelwydydd yn yr ardal ochr yn ochr â demograffeg eraill. Mae'r canlyniadau archwiliadol yn dangos bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn 29% yn unig o anheddau. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod mapio hyperleol yn darparu mewnwelediadau manylach a data mwy cynrychioliadol a chywir nag arolygon ar lefel genedlaethol.

## Cyflwyniad

Yn ystod y degawdau diwethaf, mae'r Gymraeg wedi gweld dirywiad pryderus a chyflym, sy'n bygwth ei bodolaeth, fel elfen hanfodol o'r dreftadaeth Gymreig a chyfrwng y diwylliant. Mae'r iaith gymunedol fyw hon a ddefnyddir ar gyfer cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol bob dydd, sy'n clymu cymunedau Penrhyn Llŷn gyda'i gilydd, o dan bwysau eithafol. Mae dirywiad defnydd a hyfedredd y Gymraeg gan y Cymry yn ein cymunedau brodorol yn Llŷn a'r cyd-destun cymdeithasol-ddiwylliannol ehangach yn codi pryderon dwys am barhad y trysor ieithyddol hwn. Mae nifer o ffactorau rhyng-gysylltiedig yn cyfrannu at y dirywiad, gan gynnwys newidiadau economaidd-gymdeithasol, twristiaeth, tai, polisïau ac addysg, a dylanwad holl-dreiddiol yr iaith Saesneg drechol. Mae deall a mynd i'r afael â'r bygythiadau yma yn hanfodol er mwyn gwarchod y Gymraeg, meithrin amrywiaeth ddiwylliannol, a sicrhau lles y cymunedau sy'n gysylltiedig â'r hunaniaeth ieithyddol hon. Mae angen ymyriadau brys a strategaethau newydd fydd yn gwyrdroi trywydd dirywiad y Gymraeg ac yn diogelu ein hetifeddiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gyfoethog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae llawer o ffactorau amlochrog yn cyfrannu at leihad y canran o siaradwyr Cymraeg a defnydd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. Mae sut mae'r ffactorau hyn yn dylanwadu ac yn rhyngweithio o fewn y cyd-destunau cymdeithasol-ddiwylliannol, addysgol ac economaidd yn allweddol i ddeall eu heffeithiau niweidiol cyfunol ar ein cymunedau Cymraeg. Un dylanwad negyddol llethol ar y Gymraeg, sydd  wedi cael ei adnabod dro ar ôl tro ydi'r ddibyniaeth economaidd ar y diwydiant twristiaeth yn yr ardal wledig hon ac yn Llŷn yn ehangach. Mae angen cydnabod a derbyn y ffaith fod y diwydiant twristiaeth wedi cynnal ac wedi difa'r bywyd Cymraeg yn Llŷn ar yr un pryd. Mae'n rhaid cydnabod a derbyn hyn cyn y gellir datblygu strategaethau ac ymyriadau fydd yn gwyrdroi effeithiau negyddol y diwydiant presennol, i fod yn effeithiau cadarnhaol fydd yn hyrwyddo ac adfywio'r Gymraeg yn y dyfodol. Mae ymyriadau buan yn hanfodol er mwyn adfer y Gymraeg a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol Cymru i'r dyfodol .

Ym mis Tachwedd 2023, derbyniodd Cymdeithas Pen-y-Graig, gyllid gan Lywodraeth Cymru i gynnal prosiect Perthyn ac i gydweithio efo Cyfeillion Llŷn a Chynghorau Cymuned er mwyn 'helpu'r Gymraeg ffynnu yn y cymunedau Cymraeg sydd gyda dwysedd uchel o ail gartrefi'. Un o bwrpasau'r prosiect Perthyn ydi edrych ar bosibiliadau datblygu cynlluniau tai fforddiadwy a fyddai yn cyfrannu at godi niferoedd siaradwyr, aelwydydd a defnydd y Gymraeg. Pwrpas arall y prosiect ydi edrych ar bosibiliadau sefydlu twristiaeth gyfrifol, gydnaws â'r diwylliant Cymraeg. Dechreuodd y prosiect drwy ddadansoddi tystiolaeth Cyfrifiad 2021 a ddanghosod fod cymunedau Aberdaron, Tudweiliog a Botwnnog wedi aros yn ardaloedd gyda lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg yn ogystal â'r lefelau uchaf yng Nghymru o ail gartref/tai gwyliau. Ysgogodd y gydberthynas yma ffocws yr ymchwil Perthyn, gan ein bod ni drigolion y cymunedau, yn tystio yn ddyddiol i effeithiau negyddol twristiaeth ar yr iaith Gymraeg. Felly mae rhaid gofyn sut mae rhai arolygon cenedlaethol yn cyflwyno canfyddiadau sy'n awgrymu fod yr iaith yn ffynnu ac eraill yn canfod ei bod mewn perygl?

Mae llawer o fylchau â phrinder gwybodaeth fanwl am ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned gan lunwyr polisi y Cyngor Sir, Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth y DU. Mae pob un yn defnyddio setiau data gwahanol sy'n amrywio'n fawr oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth y data mwy dibynadwy a chynrychioliadol a gasglwyd yn ystod yr Arolwg Tai ac Iaith. Mae methu â defnyddio data cywir am arwain at ddirywiad parhaus yn nefnydd y Gymraeg a bydd defnydd o wybodaeth a setiau data

anghywir yn camlywio ac yn gwanhau effeithiolrwydd strategaethau, penderfyniadau polisi, cynlluniau ac ymyriadau lleol gan sefydliadau, llywodraeth leol a chenedlaethol, llunwyr polisïau ac unigolion ar draws ystod eang o feysydd.

Ar wahan i wanhau effeithiolrwydd y gweithredoedd sydd wedi eu seilio ar ddata 'brws bras', maent yn gwneud yr ymyriadau hyn, i raddau helaeth, yn aneffeithiol, yn annibynadwy, ac o bosibl yn ddiwerth neu'n niweidiol hyd yn oed. Bydd hyn yn cael effaith niweidiol, nid yn unig ar adfywio iaith ond hefyd ar dai, addysg, trafnidiaeth, iechyd, adfywio economaidd, a llawer o feysydd eraill yn ein cymunedau. Mae'n allweddol seilio neu newid polisi ar dystiolaeth data cywir, ac mae'n rhaid hefyd cydnabod a chymeryd sylw o amrywiaeth unigol a 'lleol' wrth wneud penderfyniadau neu ymyriadau.

Ni ellir gorbwysleisio gwerth dulliau hel data sydd wedi cael eu harwain gan y gymuned er mwyn casglu data amdan y gymuned. Mae'r wybodaeth leol fanwl, ynghyd â chroesgyfeirio dall ac yna wirio'r data o dair set o ddata annibynnol, wedi arwain at dystiolaeth a chanfyddiadau cadarn a chywir sydd yn rhaid ymateb iddy nhw. Nid yw'r dull hwn yn anghyffredin ac fe gafodd ei argymell fel ymarfer safonol y dylai'r awdurdodau lleol ei gynnal yn gyson, mewn papur ymchwil yn 2001, '*Effeithiau Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru*' a gomisiynwyd yn rhannol gan Gyngor Sir Gwynedd. Dywedodd "*Argymhellir bod awdurdodau lleol yn cynnal arolygon manwl a chynhwysfawr yn gyson er mwyn asesu cyflwr y Gymraeg ym mhob cymuned o fewn eu tiriogaeth"*[1]. Fodd bynnag, ni fu erioed ymgais i weithredu'r argymhellad hyd nes y cynhaliwyd yr Arolwg Tai ac Iaith yma yn Llangwnnadl yn 2024. Am fod yr Arolwg yn fanwl a chynhwysfawr ac wedi ei gynnal gan, gyda, ac ar gyfer aelodau o'n cymuned, mae'n dangos gwir gyflwr enbyd y Gymraeg yn y gymuned yma yn Llŷn.

Mae'r Arolwg Tai ac Iaith wedi adnabod rhesymau sylfaenol am ddirywiad defnydd y Gymraeg ar lefel gymunedol drwy gynhyrchu gwybodaeth feintiol gywir a chynrychioliadol i sefydlu data sylfaenol cywir. Mae'n ateb un o nodau prosiect Perthyn; cael darlun cyfredol, cynrychioladol a chywir o'r sefyllfa leol er mwyn darganfod ffyrdd ymarferol o adfywio'r Gymraeg yn ei chadarnle. Bydd cael data gwirioneddol gynrychioliadol yn helpu i lywio a datblygu polisïau, syniadau a dulliau i liniaru dirywiad y Gymraeg yn ei chadarnle. Pwysleisiodd Saunders Lewis bwysigrwydd hyn o flaen y Llys yn 1936 am y weithred o losgi adeilad M.O.D. ym Mhenyberth pan ddywedodd – *"fod parhad yr iaith yn Llŷn, sy'n ddi-dor ers y chweched ganrif yn fater o fyw neu farw i Gymru"*.

Bydd y canfyddiadau yma ynghyd a'r sgyrsiau fydd yn digwydd yn eu sgil yn cefnogi ac yn cyfrannu at barhad yr iaith, yn grymuso cymunedau, yn archwilio effeithiau economaidd-gymdeithasol, yn gwneud cyfraniadau academaidd, ac yn darparu strategaethau ymarferol ar gyfer adfywio'r iaith yn Llŷn a thu hwnt drwy gyfrannu at y drafodaeth fyd-eang ar amrywiaeth iaith.

Mae gan brosiect Perthyn bedwar amcan ymchwil:

---

[1] Dr Dylan Phillips, Catrin Thomas. Effeithiau Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru Isbn 0 947531 31 9

1) Ymchwilio a adnabod y prif ffactorau sy'n cyfrannu at ddirywiad y Gymraeg ac archwilio eu rhyngweithio a'u rhyngddibyniaethau.

2) Ymchwilio i effaith newidiadau economaidd-gymdeithasol at ddirywiad y Gymraeg, gan ganolbwyntio ar sut mae newidiadau economaidd yn effeithio ar ddefnydd a throsglwyddiad iaith.

3) Ymchwilio i strategaethau adfywio iaith a ddefnyddwyd yn y gorffennol yn ogystal ac mewn cymunedau Cymraeg eraill sy'n wynebu heriau tebyg gan nodi dulliau llwyddiannus y gellir eu haddasu.

4) Casglu a dadansoddi safbwyntiau gan y gymuned i gael cipolwg ar eu canfyddiadau, eu hagweddau a'u profiadau ynghylch dirywiad yr iaith.

Mae *Arolwg Tai ac Iaith* Perthyn yn cefnogi’r amcanion ymchwil yma trwy sefydlu darlun cyfannol a chywir o’r sefyllfa dai ac iaith yn yr ardal hon sydd o bwysigrwydd ieithyddol. Bydd hefyd yn gweithredu fel gwaelodlin i archwilio ymhellach i’r berthynas rhwng gwahanol ffactorau fel y diwydiant twristiaeth a’r iaith Gymraeg.

## Methodoleg

***Cynllunio:*** Cafodd yr ymchwilwyr arweiniad ar y dechrau gan ymgynghorydd ymchwil ar y dull o gynnal yr arolwg. Penderfynwyd dilyn cynllun Wholescape o dan arweiniad y gymuned trwy gasglu ystod o dystiolaeth o ffynonellau eilaidd (cyfrifiad ONS ac ati) a chasglu data o ffynonellau cynradd a thrwy ddefnyddio gwybodaeth arbenigol a lleol er mwyn cael gwybodaeth gywir a manwl o'r sefyllfa yn ei chyfanrwydd. Roedd hyn yn cyd-fynd yn dda â phwrpas yr arolwg, sef adeiladu sylfaen ar gyfer ymchwiliadau pellach y prosiect Perthyn yn y dyfodol.

***Aelodau Ymgynghorol:*** Fel prosiect a gafodd ei arwain gan y gymuned, cafwyd mewnbwn gan aelodau o'r gymuned mewn rôl ymgynghorol. Recriwtiwyd aelodau gweithgar o'r gymuned i fod yn yn aelodau ymgynghorol, a oedd hefyd yn cynrychioli tri grŵp lleol: Cymdeithas Penygraig [2], Cyfeillion Llŷn [3], a'r Cyngor Cymuned [4]. Roedd y grŵp o aelodau o'r gymuned yn rhan o bob agwedd o'r ymchwil, gan gynnwys cynllunio'r astudiaeth, casglu data, dadansoddi a lledaenu.

***Defnyddiau:*** Defnyddiwyd mapiau ffisegol (ugain o brintiau A3 ar raddfa 1:1250) i arolygu'r holl anheddau o fewn yr ardaloedd o ddiddordeb. Ffurfiwyd y mapiau trwy drawsgyfeirio Mapiau Meistr yr Arolwg Ordnans, Google Maps ar-lein, a data lloeren Airbus / Maxar. Llwyddodd y croesgyfeirio hwn i greu'r darlun mwyaf cyfredol o bodiau a charafanau statig a theithiol yn yr ardal. Defnyddiwyd dalennau cyfrif i gofnodi nifer y strwythurau/priodweddau a phobl, yn seiliedig ar y math o eiddo ac ar yr iaith o fewn pob map. Defnyddiwyd Microsoft Word a Microsoft Excel ar gyfer Mac 16.21 ar gyfer rheoli data, dadansoddi ac ysgrifennu.

***Mesurau:*** Casglwyd yr holl ddata cymunedol ar eiddo a thrigolion ar draws yr ardal ymchwil, gyda mapio hyperleol. Gwnaed hyn drwy fynd trwy bob map a nodi nifer y strwythurau/eiddo yn ôl math (cartref cyntaf, ail gartref, gosod tymor byr, gwersylla, carafan statig, pod, canolfan gymunedol, siop, caffi neu fan addoli). Cyfrifwyd y preswylwyr yn ôl oedran (dros neu o dan 18 oed) ac iaith (Cymraeg a di-Gymraeg). Cyfrifiwyd 'Cymraeg ei iaith' fel; 1) gallu siarad Cymraeg i lefel sgyrsiol o leiaf, 2) yn siarad Cymraeg o fewn y teulu, a 3) yn siarad Cymraeg y rhan fwyaf o'r amser gydag eraill sydd hefyd yn gallu deall Cymraeg. Cyfrifiwyd 'di-Gymraeg' fel pobl oedd ddim yn medru cynnal sgwrs yn Gymraeg. Cyfrifiwyd 'tai aelwydydd iaith gymysg' fel aelwyd lle mae rhai preswylwyr yn siarad Cymraeg, a rhai fod yn ddi-Gymraeg neu fod yn gymysgedd o'r ddau.

***Trefniadaeth:*** Cyfarfu'r ymchwilwyr i ddiffinio'r ardal ddaearyddol a chynhyrchu'r deunyddiau mapio hyperleol. Yn gyntaf, cyfarfu'r aelodau ymgynghorol efo ymchwilydd i gwblhau'r mapio hyperleol. Roedd cysylltiadau agos yr aelodau ymgynghorol gyda'r gymuned yn arwain y penderfyniadau. Petai aelodau ymgynghorol naill ai'n ansicr neu ddim yn cytuno'n llwyr a ddefnydd yr annedd neu iaith y preswylydd, cadarnhawyd ei statws gan ymchilydd. Roedd hyn yn cael ei wneud ar-lein trwy gyfeiriaduron y cyngor, hysbysebion am yr eiddo ar lein, a thrwy ymchwiliad pellach gydag aelodau eraill o'r gymuned a/neu'r preswylwyr eu hunain. Dilyswyd y broses hon trwy sicrhau fod pob aelod o'r gymuned yn gweithio'n annibynnol a dall o'i gilydd.

---

[2] Cymdeithas Penygraig - http://llyn.co.uk/llyn/?page_id=97
[3] Cyfeillion Llŷn - http://cyfeillionllyn.org/
[4] Cyngor Cymdeithas Tudweiliog - http://176.32.230.7/cyngorcymdeithastudweiliog.cymru/cym/

***Dadansoddiad:*** Roedd y dadansoddiad yn ddisgrifiadol ac yn archwiliadol, roedd yn cynnwys cyfansymiau a chanrannau yn bennaf wedi'u categoreiddio gan ffactorau allweddol. Roedd hyn yn ddigonnol er mwyn; 1) cyd-fynd â natur archwiliadol y cam yma o'r prosiect, 2) cyrraedd yr un dyfnder o dadansoddiad ag arolygon cenedlaethol er mwyn medru cymharu cywirdeb setiau data cenedlaethol, a 3) gweithredu ar argymhelliad Dr Dylan Pillips a gyhoeddwyd dair mlynedd a'r hugain yn ôl, y dylid cynnal arolygon manwl yn gyson er mwyn monitro sefyllfa'r Gymraeg, mewn adroddiad ymchwil i '*Effeithiau Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg yng Ngogledd Orllewin Cymru*',

## Canlyniadau

Dangosodd y canlyniadau fod 127 o anheddau yn ardal yr arolwg, gyda dim ond 76 (59%) ohonynt yn anheddau yr oedd pobl yn byw ynddynt drwy'r flwyddyn. O'r rhain, mae 34 (26.8%) yn aelwydydd Cymraeg eu hiaith, mae 3 (2.4%) yn aelwydydd iaith gymysg, a 39 (30.7%) yn aelwydydd di-Gymraeg. O'r 76 o aelwyd sy'n cael eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn, mae 34 (44.7%) yn siaradwyr Cymraeg, a 39 (51.3%) yn ddi-Gymraeg, gyda 3 (3.9%) yn iaith gymysg. Mae 51 (40.6%), naill ai yn ail gartrefi, tai llety, neu'n wag.

Yn yr aelwydydd Cymraeg, mae 73 o oedolion Cymraeg eu hiaith ac 82 o oedolion di-Gymraeg yn yr aelwydydd di-Gymraeg. Mae 43 o blant hefyd, 88% mewn aelwydydd Cymraeg eu hiaith, gyda dim ond 3 aelwyd gymysg. Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd di-Gymraeg yn oedolion hŷn ac yn economaidd anweithgar, h.y. roedd tua 80% wedi ymddeol.

Roedd 20 o dai gwyliau a 25 annedd yn cael eu defnyddio fel llety gwyliau, h.y. defnyddir 20 fel ail gartref gan y perchnogion, teulu a ffrindiau yn unig. Defnyddir 25 fel busnesau llety gwyliau tymor byr gan eu perchnogion. Mae ffigyrau ceidwladol yn nodi fod nifer y preswylwyr yn y rhain yn 80 a 100 yn y drefn honno (+/-5%). Mae'r ffigurau yma wedi ei chael drwy wybodaeth leol yr aelodau ymgynghorol a thrwy hysbysebion am dai gwyliau ar y rhyngrwyd.

Yn ogystal â'r anheddau uchod, mae 10 maes carafanau, 90 o garafanau statig a 7 pod. Mae yna hefyd 112 o garafanau 'teithiol'. Amcangyfrifir bod tua 1002 (+/-5%) o ymwelwyr yn y rhain yn ystod y 'tymor' brig gyda 60 o ymwelwyr ychwanegol mewn pebyll, carafanau symudol a chartrefi modur. Mae hyn yn golygu mae 7.3% o oedolion sydd yn ardal yr arolwg yn ystod yr haf sydd yn siarad Cymraeg.

Mae dwy siop / caffi, a'r ddau ohonynt ar agor yn ystod yr haf yn unig (dechrau Gorffennaf i ddiwedd Awst). Ar wahân i'r busnesau carafanau, y prif weithgareddau economaidd arall ydi hunangyflogaeth, gan gynnwys adeiladu a chrefftau ategol a ffermio. Mae yna gymysgedd o bobl yn gweithio o gartref ac yn trafeilio y tu allan i ardal yr arolwg i weithio yn gyflogedig.

Mae yna un Ganolfan Gymunedol, Eglwys a Chapel. Nid oes ysgol, meddygfa, tafarn, gwesty na man cyfarfod cymunedol arall.

Tabl 1. Annedd

| Math o annedd | Nifer yr anheddau (canran) |
|---|---|
| Holl | 127 |
| Tai Preswyl (Cymraeg eu hiaith) | 34 (26.8%) |
| Tai Preswyl (Di-Gymraeg) | 39 (30.7%) |
| Tai Preswyl (Iaith gymysg) | 3 (2.4%) |
| Tai Gwag | 2 (1.6%) |
| Ail gartrefi (gyda dau breswylydd) | 23 (18.1%) |
| Llety Gwyliau (tymor byr e.e. Air B & B) | 26 (20.5%) |

Tabl 2. Iaith

| Pobl | Nifer (Canran y preswylwyr i gyd oddi ar y tymor/y tymor brig) |
|---|---|
| Trigolion Cymraeg eu hiaith<br>Oedolion<br>Plant | 110 (60% / 7.3%)<br>73 (40.1% / 4.8%)<br>38 (20.8% / 2.5%) |
| Trigolion di-Gymraeg<br>Oedolion<br>Plant | 82 (45% / 5.4%)<br>77 (42.3% / 5.1%)<br>5 (2.7% / 0.3%) |
| Ymwelwyr | 1302 (8.7% / 87.1%)* |

Tabl 3. Tai amhreswyl a math arall o annedd/adeilad

| Math o Adeilad | Rhif |
|---|---|
| Ail Gartref, Gwyliau tymor byr ar osod, B a B neu Vacant. | 51 |
| Carafán (statig) | 90 |
| Carafán (Tourer) | 112 |
| Safle Carafannau / Gwersylla | 10 |
| Podiau / Glampio | 7 |
| Siop / Caffi | 2 |
| Canolfan Gymunedol | 1 |
| Lle Addoliad | 2 |

*Mae nifer yr ymwelwyr mewn cyfnodau brig ac ysgwydd yn seiliedig ar ffigurau Llywodraeth Cymru gan Croeso Cymru - mae cyfraddau preswyliaeth hunanarlwyo yn gyfartaledd blynyddol o 55%-60%. Mae patrwm tymhorol iawn gyda'r ddau fath o lety, ac mae capasiti sylweddol yn aros yn y tymhorau ysgwydd a'r gaeaf. Mae cyfraddau preswyliaeth cymharol uchel ar gyfer carafanau statig a chartrefi gwyliau gyda chynhwysedd sbâr cyfyngedig iawn yn ystod misoedd brig yr haf.[5]

[5] Llywodraeth Cymru (2020) Blaenoriaethau 'Croeso i Gymru' ar gyfer yr economi ymwelwyr (Crynodeb o'r sylfaen dystiolaeth) https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/202001/welcome-to-wales-priorities-for-the-visitor-economy-2020-to-2025-summary.pdf ac Arolygon - https://www.gov.wales/wales-tourism-accommodation-occupancy-surveys

## Trafodaeth

Mae'r drafodaeth ganlynol yn amlygu'r prif faterion sydd yn achosi'r pryder mwyaf sy'n deillio or arolwg yma yn unig. Mae ail ran yr adroddiad, sy'n cael ei gyhoeddi ar wahân, yn trafod y rhain mewn mwy o fanylder ac o fewn eu cyd-destun.

Mae'r ymchwil hon yn taflu goleuni ar natur gymhleth ac amlochrog y dirywiad yn nefnydd y Gymraeg yn Llŷn, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â lefelau uchel o ail gartrefi a thwristiaeth. Er bod arolygon cenedlaethol yn aml yn dangos canran uchel o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd gwledig, mae ein harolwg hyperleol yn cynnig persbectif mwy manwl a phryderus. Mae'r data a gasglwyd yn dangos, er bod aelwydydd Cymraeg yn dal i fodoli, bod eu canran yn lleihau. Wrth i'r ganran o siaradwyr Cymraeg leihau mae effaith dinistriol dwyieithrwydd ansefydlog yn dwad yn amlwg wrth i ddefnydd cymunedol y Gymraeg leihau yn llawer mwy na chanran y siaradwyr. Mae presenoldeb un person di-Gymraeg o fewn nifer o bobl Gymraeg am newid iaith digwyddiad cymdeithasol o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae'r mewnlifiad o drigolion ac ymwelwyr di-Gymraeg ac effeithiau niweidiol ehangach twtistiaeth yn fygythiad sylweddol i oroesiad yr iaith. Os na lwyddir i adfer y sefyllfa yn fuan mae'n anochel y bydd diwedd ar y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw yn y dyfodol agos.

### *Effaith economaidd-gymdeithasol twristiaeth ac ail gartrefi*

Un o'r prif resymau dros y dirywiad ieithyddol hwn, fel yr amlygwyd yn y canlyniadau, yw'r cynnydd mewn ail gartrefi a thai gwyliau. Mae'r duedd hon nid yn unig wedi arwain at ostyngiad yn nifer y preswylwyr parhaol, mae hefyd wedi newid cyfansoddiad demograffig y gymuned, yn enwedig yn ystod y tymor twristiaeth brig. Mae'r canlyniadau'n dangos bod poblogaeth siaradwyr Cymraeg yn crebachu'n ddramatig yn ystod y tymor brig, gydag oedolion Cymraeg eu hiaith yn unig yn 7.3% o'r boblogaeth. Mae'r newid tymhorol hwn yn y dirwedd ieithyddol yn tanlinellu effaith twristiaeth ar fywiogrwydd y Gymraeg. Wrth i ail gartrefi a thai gwyliau gynyddu, mae'r galw am wasanaethau sy'n darparu ar gyfer twristiaid Saesneg eu hiaith yn tyfu, gan leihau mwy ar y cyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchiadau bob dydd yn y cymunedau.

Mae'r prosiect Perthyn yn ymateb i'r heriau drwy hyrwyddo cynlluniau tai fforddiadwy fel cam hanfodol tuag at sefydlogi cyfansoddiad demograffig a'r dirywiad ieithyddol. Mae creu cyfleoedd i bobl leol Cymraeg eu hiaith aros yn yr ardal yn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei siarad bob dydd, yn enwedig ar aelwydydd cartrefi ac yn y cymunedau. Mae'n amhosib anwybyddu'r ffaith fod y dwristaieth bresennol, Saesneg ei hianth yn cynnal ac yn difa'r bywyd Cymraeg ar yr un pryd. Mae'r her o gysoni'r buddion economaidd ac effeithiau niweidiol twristiaeth ar y Gymraeg angen ei datrys.

### *Anghysondebau mewn Data Cenedlaethol a Lleol*

Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos gwahaniaethau rhwng setiau data cenedlaethol a chanfyddiadau ein harolwg hyper-leol. Er bod arolygon cenedlaethol yn awgrymu bod y Gymraeg yn ffynnu mewn rhai meysydd, mae ein dull manwl dan arweiniad y gymuned yn datgelu realiti mwy brawychus. Mae methiant arolygon cenedlaethol i hel tystiolaeth hyper-leol am ddefnydd

iaith-yn enwedig yng ngoleuni effaith twristiaeth tymhorol— yn cwestiynu dibynadwyedd y setiau data hynny pan gânt eu defnyddio i lywio polisïau cadwraeth iaith.

Gellir gweld enghraifft, ond nid yw'n unigryw, o ble mae setiau data cenedlaethol yn amrywio efo'r data yr ydym wedi'i gasglu a'i wirio yn yr enghraifft hon - Tabl 3.6 ar t23 o 'Compendiwm Prosiect BRO o Ystadegau Cyfrifiad 2021[67]. Mae hyn yn nodi bod nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, fel yr adroddwyd yng Nghyfrifiad 2021 ar gyfer wardiau Aberdaron, Botwnnog a Tudweiliog (LSOA W01001932) yn 24+ oed yn 70.16%. Fodd bynnag, mae ein harolwg yn dangos mai dim ond 40.1% o oedolion sy'n siaradwyr Cymraeg yn ardal ein harolwg ni. Mae amrywiad o'r fath mewn ffigurau 'crai', yn frawychus ond yn ganwaith mwy brawychus pan ystyrir eu bod yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer polisïau a strategaethau megis Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Strategaeth Iaith Gwynedd 2023 – 2033, Cynllun Gweithredu Tai Gwynedd 2020/21-2026/27, Y Cynllun Datblygu Lleol, y Cynllun Economi Ymweld Gynaliadwy, strategaethau datblygu economaidd ac Ardal Ni a phob cynllun strategaeth a pholisïau eraill sydd wedi ei seilio arnynt.

Mae hyd yn oed yr ystadegau a gafodd eu cynhyrchu ar gyfer W00000602 yr OA o 2021[8], (Ardaloedd Allbwn (Ardaloedd Allbwn (OAs) yw'r lefel isaf o ardal ddaearyddol ar gyfer ystadegau'r cyfrifiad ac fe'u crëwyd gyntaf yn dilyn Cyfrifiad 2001.), yn wahanol i'r data yng nghanlyniadau ein harolwg.

Yn Strategaeth Iaith Gwynedd 2023 – 2033, t4 o dan adran 4 Y Sefyllfa Bresennol - crynodeb o'r sefyllfa ystadegol a'r heriau, mae'n nodi: "*Ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021, roedd 73,560 o bobl (3 oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd sy'n cyfateb i 64.4%. Yn 2011, roedd nifer y siaradwyr yng Ngwynedd yn 77,000 a'r ganran gyfatebol oedd 65.4%, felly, mae'r gyfran wedi gostwng 1%*". Yna mae'n dweud: *"Rydym wedi gosod nod penodol ar gyfer cyfnod cychwynnol y strategaeth iaith newydd hon i edrych yn fanwl ar ganlyniadau'r cyfrifiad, er mwyn deall yr union newidiadau sy'n digwydd ar draws y gwahanol grwpiau oedran, ac ardaloedd o'r sir. Ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r cyfrifiad, edrychodd ein gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg ar y proffil iaith, gan gyflwyno dadansoddiad cychwynnol i Bwyllgor Iaith y Cyngor ac i Aelodau'r Cabinet."* [9]

Mae'r dadansoddiad cychwynnol a grybwyllwyd uchod – 2021- Yr Iaith Gymraeg , yn dangos Gwynedd fel 13 ardal, gydag Ardal Pen Llŷn gyda 69% o siaradwyr Cymraeg sy'n oedolion. Mae'r ardal ddaearyddol hon yn agos i ardal Ardal Ni (Cynllun Adfywio Cyngor Gwynedd 2035) sy'n dangos 68%. Mae cyfrifiad 2021 ar gyfer yr LSOA yn dangos 70.16%. Mae ein hardal arolwg ni yn dangos 40.1%. Yn wir nid oedd drafft cyntaf Cynllun Ardal Ni (Cynllun Adfywio Cyngor Gwynedd 2035) wedi adnabod yr angen i ystyried ffynniant y Gymraeg o gwbwl. Cafodd hyn ei

[6] Dr Richard Glyn Roberts a'r Athro Conchúr Ó Giollagáin - Prosiect BRO Compendium o Ystadegau Iaith yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021, Tabl 6.2, t55
https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-

[7] /Prosiect%20BRO%20Compendium%20of%20Language%20Statistics%20based%20on%20Census%202021%20data_0.pdf

[8] https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/language/datasets/welshskillsunderstandingwalescensus2021/welshskillsunderstandingoutputareawalescensus2021/welshskillsunderstandingoutputareasts036.xlsx

[9] https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Language-Standardsa Pholisi / Appendix-2-Welsh-Language-Strategy-2023-2033-Word.pdf

gywiro pan gafodd y cynllun Croeso Cymraeg ei gynnwys ar restr ‘cynlluniau i gryfhau'r Gymraeg’ yn y Cynllun Ardal Ni. Digwyddodd hyn oherwydd fod y Cynghorau Cymuned a Thref wedi dwad at ei gilydd o dan y prosiect Perthyn ac wedi dynodi Ardal Ni, yn ei chyfanrwydd yn Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol Dwysedd Uwch, lle dylid amrywio polisiau a gweithredu ar frys er mwyn gwarchod a chryfhau’r Gymraeg. Felly mae’r fersiwn drafft ddiweddaraf Medi 2024[10] o Gynllun Adfywio Cyngor Gwynedd 2035 yn cynnwys ‘cynlluniau i gryfhau'r Gymraeg’ yn y cynllun adfywio am y tro cyntaf erioed. Mae'r cynllun adfywio hwn yn rhan o strategaeth adfywio economaidd ehangach Cyngor Gwynedd.

Mae ein canfyddiadau yn adleisio argymhellion blaenorol o adroddiad 2001 ar effeithiau twristiaeth ar y Gymraeg, a oedd yn pwysleisio'r angen am arolygon manwl a rheolaidd ar lefel leol. Er gwaethaf yr argymhelliad, nid yw’r awdurdodau lleol wedi casglu’r data angenrheidiol. Mae'r diffyg casglu data yma, wedi rhwystro creu polisïau effeithiol ac ymyriadau strategol angenrheidiol, tra mae llunwyr polisi wedi bod yn gweithio gyda gwybodaeth anghywir neu anghyflawn. Mae prosiect Perthyn yn Llŷn, drwy’r Arolwg Tai ac Iaith, yn ceisio unioni hyn drwy ddarparu set o ddata mwy cywir a chynrychioliadol a all fod yn sail gadarn i lywio penderfyniadau ac ymateb yn briodol i’r argyfwng yn y dyfodol.

### *Trosglwyddo iaith rhwng cenedlaethau a rôl y gymuned.*

Mater allweddol arall a nodwyd yn yr ymchwil yw cynnal trosglwyddiad y Gymraeg rhwng cenedlaethau. Mae'r data'n dangos bod gan fwyafrif yr aelwydydd Cymraeg blant iau sy'n cael eu magu yn Gymraeg. Fodd bynnag, wrth i nifer yr aelwydydd di-gymraeg gynyddu, mae'r cyfleoedd i blant ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r cartref yn gostwng. Mae hyn yn arbennig o bryderus mewn ardaloedd sydd â gwasanaethau cyhoeddus cyfyngedig, fel ysgolion a chanolfannau cymunedol, a allai fel arall fod yn ganolfannau ar gyfer trosglwyddo Cymraeg.

Ni ellir gorbwysleisio rôl y gymuned mewn adfywio iaith. Mae cyfranogiad yr aelodau ymgynghorol o’r gymuned leol yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymdrechion ar lawr gwlad wrth gasglu data cywir a gweithredu strategaethau ymarferol priodol. Roedd cysylltiadau a gwybodaeth leol fanwl yr aelodau ymgynghorol yn hanfodol i gynhyrchu canfyddiadau dibynadwy. Gallai'r dull hwn fod yn fodel ar gyfer cymunedau eraill sy'n wynebu heriau tebyg. Mae llwyddiant prosiect Perthyn yn Llŷn i ymgysylltu â'r gymuned yn dangos bod yn rhaid i unrhyw ymdrechion i adfywio'r Gymraeg gael eu harwain gan y gymuned a'u teilwra i anghenion ac amgylchiadau penodol pobl yr ardal.

### *Argymhellion ar gyfer Polisi ac Ymchwil i'r Dyfodol*

Mae angen dull aml-haen i fynd i'r afael â'r heriau ieithyddol a nodwyd yn yr ymchwil hon. Yn gyntaf, mae’n rhaid i lywodraethau lleol a chenedlaethol gydweithio efo’r cynghorau cymunedau i fynd i'r afael â'r argyfwng tai sydd yn prysuro dirywiad y Gymraeg. Mae cynlluniau tai fforddiadwy, fydd yn arwain at gynyddu niferoedd aelwydydd Cymraeg, yn hanfodol i barhad yr iaith. Er mwyn gwneud hyn mae’n rhaid sefydlu polisïau gosod a gwerthu priodol fydd yn rhoi

[10] https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Have-your-say/Consultation-results/2022/Canlyniadau-ArdalNi/Canlyniadau-Ardal-Ni-2035-Dalgylch-Pen-Llyn.aspx

blaenoriaeth i gynyddu niferoedd siaradwyr, aelwydydd a defnydd y Gymraeg. Yn ogystal, dylai polisïau twristiaeth flaenoriaethu arferion cynaliadwy nad ydynt yn tanseilio ffabrig diwylliannol ac ieithyddol yr ardal ond sydd yn hytrach yn ei gryfhau.

Ar ben hynny, rhaid i lunwyr polisi fabwysiadu dulliau casglu data mwy cywir a manylach i olrhain defnydd o'r Gymraeg ar draws gwahanol gyd-destunau a thymhorau. Heb ddata dibynadwy, mae'n amhosibl creu strategaethau effeithiol ar gyfer cadw iaith. Dangosodd y prosiect hwn y dylid ehangu gweithredu arolygon dan arweiniad y gymuned ledled Cymru i sicrhau bod polisïau iaith yn seiliedig ar wybodaeth lawr gwlad a phrofiadau byw siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol ranbarthau.

Dylid gweithredu ar argymhellion ymchwiliadau, megis ymchwil Dr Dylan Phillips yn 2001 a wnaeth rybuddio fod sgil-effeithiau twristiaeth, yn fygythiad difrifol iawn i ddyfodol a pharhad yr iaith Gymraeg ac argymell y dylai'r Cynghorau Sir hyrwyddo twristiaeth mewn modd sy'n gydnaws â'r diwylliant lleol a chynnal arolygon manwl a chynhwysfawr yn gyson er mwyn asesu cyflwr y Gymraeg ym mhob cymuned o fewn eu tiriogaeth. Roedd yr ymchwil yn 2001 yn defnyddio gwybodaeth leol yn sail iddi, fel y mae ein hymchwil Perthyn ni wedi ei wneud heddiw. Dim ond trwy dystiolaeth llawr gwlad trigolion Cymraeg yn y cymunedau, y gellir cael darlun cyfredol cywir o sefyllfa'r Gymraeg. Mae trigolion a Chynghorwyr Cymuned Llŷn wedi manteisio ar y prosiect Perthyn er mwyn anfon neges glir i'r llywodraethau am eu pryderon dwys am ddifodiant y Gymraeg.

Dylid ymchwilio i effeithiolrwydd gwahanol brosiectau a gynhaliwyd yn y gorffennol, er mwyn ariannu'r prosiectau mwyaf effeithiol yn y dyfodol. Dylid ymchwilio'n bennodol i brosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg yn ogystal a'r rhai sydd wedi ymwneud a hyrwyddo twristiaeth. Dylid gweithredu prosiectau cymunedol, fydd yn cynyddu defnydd y Gymraeg orau ac yn rhoi'r gwerth gorau am arian. Roedd y peilot Croeso Cymraeg a gynhaliwyd yn Llangwnnadl yn 2012 yn hyrwyddo'r Gymraeg mewn cydweithrediad efo'r holl fusnesau twristiaeth. Y cynllun Croeso Cymraeg ydi'r unig gynllun sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, ar restr o gynlluniau blaenoriaeth Cynllun Adfywio 'Ardal Ni' gan Gyngor Gwynedd. Nod y cynllun Croeso Cymraeg ydi gwyrdroi effeithiau niweidiol y dwristiaeth Saesneg i fod yn effeithiau cadarnhaol twristiaeth gylchol, gynaladwy Gymraeg ei hiaith fydd yn cynnal y Gymraeg yn Llŷn ac yn cyfranu at Cymraeg 2050.

Yn olaf, mae'n hanfodol parhau i gasglu a dadansoddi safbwyntiau aelodau o'r gymuned er mwyn cael cipolwg cyson ar eu canfyddiadau, eu hagweddau a'u profiadau dyddiol am ddirywiad yr iaith. Mae safbwyntiau ac ymgysylltiad cymunedol yn dylanwadu'n sylweddol ar lwybr dirywiad y Gymraeg, ac mae deall y safbwyntiau hyn yn hanfodol ar gyfer datblygu strategaethau lliniaru ac adfywio effeithiol. Yn ystod y prosiect Perthyn a'r arolwg yma mae llawer o ymgynghori a sgyrsiau wedi arwain at bosibiliadau ychwil pellach sydd angen eu hystyried. Byddwn yn edrych ac yn ystyried rhai o rhain ymhellach fel parhad o'r gwaith hwn. Dyma rai o'r posibiliadau:

- Gwerthuso ystadegau ac ymchwil cyrff academaidd a statudol eraill.
- Adolygu polisïau'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru o fewn cyd-destunau lleol.
- Asesu'r data economaidd ac ieithyddol sydd ar gael ar ardaloedd daearyddol llai.
- Archwilio trigolion lleol, busnesau twristiaeth, ac unigolion dylanwadol eraill, trwy holiaduron neu gyfweliadau.

- Trafod ein canfyddiadau gydag academyddion ac arbenigwyr polisi iaith.
- Cynnal gweithdy gyda rhanddeiliaid, mentrau cymdeithasol, busnesau, cynghorwyr a swyddogion.
- Ymestyn ardal yr arolwg i'r Ardal Gynnyrch gyfan - OA W00000602.
- Gweithio gyda, a chefnogi Cynghorau Cymuned Botwnnog, Tudweiliog ac Aberdaron gyda'u dynodiadau o fod yn Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Dwysedd Uwch.

***Cyfyngiadau Astudio***

Mae angen ailadrodd yr astudiaeth hon mewn cymunedau eraill yn Llŷn er mwyn asesu'r ardal yn ei chyfanrwydd. Mae cysylltiadau rhwng y gwahanol ddylanwadau sydd yn effeithio ar ddirywiad yr iaith yn Llŷn yn gymhleth ac amrywiol, er fod y prif ddylanwadau yn amlwg. Oherwydd y raddfa fach dim ond dechrau crafu'r wyneb mae’r astudiaeth. Wrh gynnal yr asesiad gwelwyd fod llawer mwy o arbenigedd llawr gwlad nad oedd bosib ei gynnwys oherwydd cyfyngiadau amser ac adnoddau. Roedd sgyrsiau a chyfweliadau gyda thrigolion yn bellgyrhaeddol ac yn disgyn y tu allan i gwmpas yr arolwg.

## Casgliadau

Mae’r papur ymchwil yma sydd wedi ei gyhoeddi mewn dau ran, yn cyfrannu at y drafodaeth ehangach ar gadwraeth iaith, gan edrych yn benodol ar Lŷn. Mae'r canfyddiadau'n pwysleisio rôl allweddol data sy'n cael ei gasglu gan y gymuned wrth lywio ymdrechion adfywio iaith. Mae’n cadarnhau'r angen am ymyriadau polisi brys yn y cymunedau Cymraeg, sydd wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n cyfrannu at ddirywiad y Gymraeg. Er bod y prosiect Perthyn a’r Asesiad Tai ac Iaith yma yn cynnig dull addawol, mae gwaith sylweddol yn dal angen ei wneud i ddiogelu parhad y Gymraeg yn Llŷn, a thu hwnt.

Mae’r arolwg yn amlygu a chadarnhau effeithiau negyddol y diwydiant twristiaeth sy’n cael ei drafod mewn dyfnder yn yr ail ran o’r papur ymchwil. Fodd bynnag, nid yw’r papur hwn yn cyfeirio at faesydd polisiau allweddol sy'n dylanwadu ar ffynniant y Gymraeg yng Ngwynedd, ac sydd angen sylw brys gan y llywodraethau. Nid oes unrhyw fater yn sefyll ar ei ben ei hun, a rhaid cydnabod ffactorau rhyng-gysylltiedig perthnasol. Tri o’r meysydd yma yw; 1) cynllunio, 2) gosodiadau tai lleol, a 3) ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

*Cynllunio*

Mae’r ymchwil Perthyn wedi amlygu nad yw Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDU) yn llwyddo i warchod y Gymraeg yn y cymunedau Cymraeg yn Llŷn fel y dylai nhw. Er mwyn gwarchod y Gymraeg yn y cymunedau Cymraeg, mae angen sefydlu Cynlluniau Cynefin Lleol (Place Plans) i gyd-fynd efo’r Cynllun Datblygu Unedol newydd. Mae polisïau tai sy'n cyfyngu ar adeiladu tai y tu allan i 'aneddiadau' wedi arwain at farchnad dai sefydlog a chwyddedig yn y cymunedau Cymraeg gwledig, sy’n denu mewnfudwyr cyfoethocach gan ddadleoli teuluoedd Cymraeg lleol.

Mae Botwnnog yn bentref gwledig wedi ei leoli yng nghanol y penrhyn ac mae’n un o'r pentrefi gyda'r canran mwyaf o siaradwyr Cymraeg. Mae'r CDU presennol wedi dynodi Botwnnog yn bentref gwasanaethol ar gyfer adeiladu 21 o dai newydd, gan ehangu'r anheddle presennol o bron i draean, er fod adroddiad Hwyluswyr Tai Gwynedd yn 2023 yn nodi angen am 4 yn unig. Byddai cynnydd mor fawr mewn aelwydydd Saesneg ym Motwnnog yn arwain at newid iaith y pentref. Mae nodi Botwnnog fel pentref gwasanaethol yn y CDU gan Cyngor Gwynedd, a hynny heb gamau (fel y sonnir isod), i ddiogelu defnydd y Gymraeg, am arwain yn uniongyrchol at ddifodiant yr iaith Gymraeg yn un o’i chadarnleoedd olaf.

*Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd a Polisi Gosod Lleol*

‘Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd’ ydi polisi Cyngor Gwynedd ar sut ac i bwy mae tai cymdeithasol Gwynedd yn cael eu gosod gan Adra, Grŵp Cynefin a Tai Gogledd Cymru. Mae’r polisi yn rhoid blaenoriaeth i bobl sydd angen tai brys o’r tu allan i Wynedd gan gynnwys Lloegr. Felly mae’n anhebygol y bydd y bobl yma yn medru siarad Cymraeg a does yna ddim trefn yn ei lle gan Gyngor Gwynedd i ofyn iddy nhw os ydy nhw yn medru siarad Cymraeg. Nid yw’r polisi yma gan y Cyngor yn ystyried y Gymraeg yn ffactor berthnasol i benderfyniadau gosodiadau tai yn y cymunedau mwyaf Cymraeg. Effaith adleoli llu o blant ac oedolion di-gymraeg i mewn i gymunedau mwyaf Cymraeg Llŷn ydi newid iaith y cymunedau i Saesneg.

Dylai polisïau gosod tai wella a diogelu'r iaith a'r diwylliant yn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt. Mae Adran 167 (2E) o Ddeddf 1996 yn galluogi i awdurdodau sefydlu Polisïau Gosod Lleol a gosod meini prawf ychwanegol. Mewn cymunedau Cymraeg dylai 'y gallu i siarad Cymraeg' fod yn faen prawf ychwanegol. Dylid sefydlu Polisi Gosod Lleol mewn cymunedau Cymraeg, gyda'r nod o gynyddu niferoedd siaradwyr ac aelwydydd Cymraeg a grymuso'r cymunedau yn unol a Strategaeth 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn argymell: "*Argymhelliad 33: Dylai awdurdodau lleol ac awdurdodau cynllunio ystyried a ellir datblygu modelau ar gyfer gosod tai cymdeithasol neu wrth lunio cytundebau Adran 106, lle gall y Gymraeg fod yn un ystyriaeth gadarnhaol ochr yn ochr ag ystyriaethau eraill.* [11]."

Mae gan Gyngor Gwynedd gyfrifoldeb statudol i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er nad yw'r polisi yn gosod trefn i ofyn i ddarpar ymgeiswyr pa iaith mae nhw yn ei siarad mi fydd y rhai sy'n penderfynu yn gwybod y bydd y darpar ymgeiswyr i gyd yn siarad Saesneg ond fydda nhw ddim yn gwybod os ydy nhw yn siarad Cymraeg. Felly wrth beidio a gofyn am y ddwy iaith, mae'r polisi yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg sydd yn groes i ofynion statudol – *'Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'*[12], a'r *'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'*[13] sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru weithio tuag at saith nod llesiant ac un yw 'Cymru gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi argymhell, yn unol â phwerau'r Comisiynydd o dan adran 4, y dylai Cyngor Gwynedd wneud asesiad effaith cynhwysfawr o'r Polisi Gosod Tai Cyffredin am nad oedd yr asesiad a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd yn 2019, yn cydymffurfio â'r safonau ym 'Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.[14]

### *Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Dwysedd Uwch*

Pryder parhaus ynghylch polisïau cynllunio Cyngor Gwynedd a'u methiant i ddiogelu'r Gymraeg ysgogodd Cynghorau Cymuned Botwnnog, Aberdaron, a Thudweiliog i gydweithio, gan ddynodi'r rhanbarth yn 'Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol Dwysedd Uwch'.[15] Roedd hyn yn ffordd o ddatgan cefnogaeth i argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg,[16] a phwysleisio'r angen am well gwarchodaeth i'r Gymraeg yn seiliedig ar dystiolaeth ystadegol gywir - awgrymir; "Un dull o ddiffinio ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fyddai drwy ddiffiniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ystadegol yn unig. Oherwydd natur gynhwysfawr y cyfrifiad, byddai diffiniad o'r fath yn debygol o ddibynnu ar ddata iaith Cyfrifiad 2021." Fodd bynnag, fel y dangosir yng nhanlyniad yr arolwg hon, nid yw data Cyrifiad 2021 yn adlewyrchiad cywir o niferoedd gwirioneddol siaradwyr Cymraeg yr ardal.

[11] Comisiwn Cymunedau Cymraeg. (2024) t128. https://www.gov.wales/commission-welsh-speaking-communities-report

[12] https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted

[13] https://www.gov.wales/well-being-future-generations-act-essentials-html#60672

[14] Welsh Language (Wales) Measure 2011 - https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/section/4

[15] http://cyfeillionllyn.org/1/ardal-o-arwyddocad-ieithyddol/

[16] Comisiwn Cymunedau Cymraeg. (2024) https://www.gov.wales/commission-welsh-speaking-communities-report

Mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r tri o'r meysydd uchod wrth werthuso cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor. Rhaid mynd i'r afael ag effaith y tri phwnc hyn, ynghyd ag effeithiau cronnus ail gartrefi, twristiaeth, a'r grymoedd economaidd sy'n gyrru'r ffenomenau hyn i ddiogelu'r Gymraeg. Mae Peilot Dwyfor - partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, Grŵp Cynefin a Pharc Cenedlaethol Eryri - wedi cael ei weithredu mewn ardal lle mae'r sefydliadau hyn wedi bod yn gweithredu ers amser maith, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'r Gymraeg wedi wynebu dirywiad cyson, yn aml yn gwaethygu gan eu polisïau neu ddiffyg gweithredu er lles y Gymraeg.

Mae mapiau'r cyfrifiad dros y degawdau yn dangos dirywiad y Gymraeg yn ymledu'n araf o'r dwyrain ac yn gynt o Abersoch, gan wthio'r Gymraeg i orllewin pellaf y penrhyn. Y dystiolaeth yma am yr argyfwng a'r angen i amrywio polisïau a gweithredu ymyraethau brys arweiniodd at benderfyniad y Cynghorau Cymuned i ddynodi'r ardaloedd. Dylai'r awdurdodau werthfawrogi a chefnogi awydd y Cynghorau Cymuned i warchod a chynyddu defnydd y Gymraeg a chydweithio efo nhw i ddatblygu a gweithredu datrysiadau.

Mae camau deddfwriaethol diweddar, megis Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2022 [17] a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir etc.) (Diwygio) (Cymru) 2022[18] yn ddatblygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, mae defnyddio'r arian a gynhyrchir drwy'r mesurau hyn yn ganolog, yn hytrach nac i liniaru effeithiau negyddol ail gartrefi a thai gwyliau yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt fwyaf, yn codi pryderon. Y cynnydd o 200% yn y dreth dai oedd un o brif argymhellion adroddiad 2001 - '*Effeithiau twristiaeth ar yr iaith Gymraeg'*.[19] Mae wedi cael ei weithredu o'r diwedd 23 mlynedd yn ddiwedarach pan mae sefyllfa'r Gymraeg yn llawer gwanach. Argymhelliad allweddol arall gan adroddiad 2001 oedd "y dylid cymryd camau i reoli'r farchnad o ail gartrefi a chartrefi gwyliau hyd at uchafswm o 5% mewn unrhyw gymuned." Mae polisi TWR 2 yn y Cynllun Datblygu Unedol o 2011 ymlaen, (diweddarwyd yn 2021 gyda chanllawiau Cynllunio Atodol), yn argymell gosod trothwy o 15%, mae'r ffaith bod y ganran yn 38.6% yn ardal yr arolwg yn codi amheuon am allu Cyngor Gwynedd i ddiogelu'r Gymraeg ac i weithredu yn unol a'u polisiau eu hunain. Dylid ystyried dilysrwydd y CDU oherwydd ei fod wedi'i ddatblygu a'i fabwysiadu ar sail ystadegau anghywir.

Mae'r dirywiad sydyn yng nghanran siaradwyr Cymraeg a defnydd y Gymraeg yn frawychus ac yn ddirdynnol i lawer. Yn 1971, canfu'r cyfrifiad fod Pen Llŷn yn gartref i blwyfi gyda dros 90% o siaradwyr Cymraeg, fel y trafodwyd yn yr adroddiad hwn - " *Mae Llŷn yn dangos patrwm eithaf arbenigol. Mae'n debyg bod y penrhyn, ac yn enwedig arfordir y gogledd, yn un o ardaloedd mwyaf anghysbell Cymru, hyd yn oed gyda chyfathrebu modern, ac mae'n amlwg bod y cyferbyniad rhwng arfordiroedd y gogledd a'r de yn amlwg. Arfordir y Gogledd yw'r unig ran o holl arfordiroedd Cymru lle ceir plwyfi â 90 y cant neu fwy o'u poblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg gerllaw'r lan. Y cyfryw yw Tudweiliog, Pistyll a Llanaelhaearn.*"[20]Fel y trafodwyd yn yr

[17] https://www.legislation.gov.uk/wsi/2022/994/pdfs/wsi_20220994_mi.pdf

[18] https://www.legislation.gov.uk/wsi/2022/997/pdfs/wsi_20220997_mi.pdf

[19] Dr Dylan Phillips, Catrin Thomas. Effeithiau Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru Isbn 0 947531 31 9

[20] Bowen, E.G. a Carter H. (1974) 'Observations on the Distribution of the Welsh Language at the 1971 Census' The Royal Geographical Society vol 140, No3 (Hydref 1974), tt.432440

https://www.jstor.org/stable/1796536

adroddiad hwn, mae ein harolwg yn 2024 yn dangos bod y nifer hwn wedi gostwng o 90% i 40.1%, ac yn ystod tymor brig yr haf, mae'n gostwng i ddim ond 4.8%. Mae hyn yn llawer is na'r trothwy ar gyfer cynnal cymuned hyfyw sy'n siarad Cymraeg. Mewn cyfarfod llawn o Gyngor Gwynedd ar 7/12/2023 cafwyd datganiadau gan Arweinydd y Cyngor, Dyfrig Siencyn yn gwadu realiti'r sefyllfa, yn bychanu difrifoldeb y dirywiad, ac yn dangos difaterwch pryderus o'r dystiolaeth: '*bygythiad mwyaf i'r Gymraeg ydi sylwadau negyddol Aelodau am ddirywiad yr iaith.*'[21].

Drwy gefnogaeth prosiect Perthyn, Llywodraeth Cymru mae'r ymchwil yn cadarnhau fod gwerth o hyd mewn hyrwyddo'r ardal i ymwelwyr mewn ffordd sydd yn gydnaws a'r diwylliant Cymraeg. Ond y mae hefyd wedi dangos sefyllfa argyfyngus y Gymraeg dros y degawdau diwetha ac mae mater o adfer y sefyllfa yn hytrach na'i gwarchod sydd angen. Mae'n rhaid sicrhau fod pob cyfraith, polisi, gweithred a threfn yn arwain at fwy o siaradwyr, aelwydydd a chymunedau Cymraeg.

[21] Gwe Darllediad Cyngor Llawn Gwynedd 7-12-2023 - https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=4891&ver=4&